TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror 2020

Ataliad y galon

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth a ystyriwyd yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau bod gennym rywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

- **Nifer yr achosion o ataliadau'r galon ar eich rhwydwaith trenau bob blwyddyn, rhwng 2014-2019.**
  Nid oes gennym unrhyw wybodaeth cyn dechrau'r fasnachfraint sydd yn nwylo KeolisAmey Wales Cymru Cyf (sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) ers mis Hydref 2018.

  Nid ydym yn cofnodi categori achos sydd wedi digwydd ar ein gwasanaethau. Yn hytrach, rydym yn cofnodi bod rhywun wedi gofyn am gymorth meddygol ac ni allwn wahanu digwyddiadau PAX i achosion o ataliad y galon. Ein hymateb yw galw'r gwasanaethau brys a fyddai'n darparu cyfarwyddyd yn yr orsaf.

- **A ydych chi'n gosod cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig (AED) ar eich trenau.**
  Nid ydym yn gosod cyfarpar AED ar drenau ac nid oes bwriad i wneud hyn yn y dyfodol.

- **Lefel yr hyfforddiant cymorth cyntaf a ddarperir i staff trenau**
  Nid ydym yn rhoi hyfforddiant cymorth cyntaf i staff, yn hytrach byddai'r staff yn cysylltu â'r gwasanaeth brys a fyddai naill ai'n cynorthwyo yn yr orsaf neu ar ôl cyrraedd yr orsaf.

- **Proses Trafnidiaeth Cymru o gydlynu argyfyngau meddygol ar drenau.**
  Byddem yn cysylltu â'r gwasanaethau brys ac yn cydlynu'r ymateb cyn gynted ag y bydd y trên yn yr orsaf lle gall staff meddygol/heddweision fynd at y teithiwr wedyn.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru